Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 13 Mawrth 2023

Mawrth 2023

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 13 Mawrth 2023[1] gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU/Georgia: Cytundeb ar Ail-dderbyn Pobl sy'n Preswylio heb Ganiatâd;
- Y DU-Japan Cytundeb ynghylch Hwyluso Mynediad Dwyochrog a Chydweithrediad rhwng Lluoedd Hunan-Amddiffyn Japan a Lluoedd Arfog Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

**6.** Cytunwyd i nodi'r naill gytundeb a'r llall er gwybodaeth yn unig; nodir manylion pellach isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Mawrth 2023

# 2. Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**Y DU-Georgia: Ail-dderbyn Pobl sy'n Preswylio heb Ganiatâd**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 9 Chwefror 2023. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 23 Mawrth 2023.

**8.** Mae'r cytundeb yn darparu mecanwaith ar gyfer dychwelyd unigolion sydd wedi torri cyfreithiau, polisïau a gweithdrefnau mewnfudo. Mae'n gytundeb dwyochrog ac yn berthnasol i ddinasyddion Georgaidd/Prydeinig, pobl sydd â'r hawl i breswylio yn Georgia/y DU yn ogystal â gwladolion trydydd parti, sydd â chysylltiad wedi'i ddilysu â Georgia/y DU.

**9.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn nodi bod y DU, pan oedd yn Aelod-wladwriaeth yr UE, wedi cymryd rhan mewn nifer o gytundebau aildderbyn yr UE. Fodd bynnag, ymadawiad y DU â'r UE, daeth y cytundebau hynny – gan gynnwys Cytundeb Aildderbyn yr UE-Georgia – i ben â bod yn gymwys i'r DU. Mae Llywodraeth y DU felly yn ceisio rhoi cytundeb dwyochrog gyda Georgia ar waith.[2]

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y cytundeb yn sylweddol debyg i Gytundeb Aildderbyn yr UE-Georgia, gydag un gwelliant nodedig[3], sef bod y cytundeb yn cyfyngu ar rwymedigaethau'r DU o'u cymharu â rhai Aelod-wladwriaethau'r UE, fel mai dim ond personau sydd â hawl i breswylio sydd â dyletswydd arni i'w hailderbyn. Mae cytundebau aildderbyn yr UE yn berthnasol i bersonau sy'n dal cenedligrwydd un o Aelod-wladwriaethau'r UE, sy'n fwy eang.

**11.** Fel y dywed y Memorandwm Esboniadol, mae'r cytundeb yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl (mewnfudo) o fewn Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.[4] Felly ni ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ar negodi'r cytundeb.

**12.** Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU-Georgia: Cytundeb ar Aildderbyn Pobl sy'n Preswylio heb Ganiatâd, Chwefror 2023, paragraffau 3.1-3.2
[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3
[4] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

## Y DU-Japan Cytundeb ynghylch Hwyluso Mynediad Cilyddol a Chydweithrediad rhwng Lluoedd Hunan-Amddiffyn Japan a Lluoedd Arfog Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

**13.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 20 Chwefror 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 24 Mawrth 2023.

**14.** Mae'r cytundeb hwn yn sefydlu fframwaith cydweithredu "i hwyluso cydweithrediad amddiffyn sydd o fudd i'r ddwy ochr" rhwng Lluoedd Arfog Prydain a Lluoedd Hunan-Amddiffyn Japan.[5]

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl (amddiffyn) heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, ni ymgynghorwyd â nhw ar ddrafftio'r cytundeb.[6]

**16.** Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU-Japan Cytundeb ynghylch Hwyluso Mynediad Dwyochrog a Chydweithrediad rhwng Lluoedd Hunan-Amddiffyn Japan a Lluoedd Arfog Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Chwefror 2023, paragraff 2a
[6] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10a